Adroddiadau Cylch Gorchwyl Estyn
Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru

Teitl yr adroddiad: Bwyd a ffitrwydd mewn ysgolion - Adroddiad ar ba mor dda y mae ysgolion yng Nghymru yn cefnogi plant a phobl ifanc i fod yn iach ac yn weithgar.

Manylion yr Adroddiad
Gofynnodd yr Is-adran Anghenion Ychwanegol a Chynhwysiant yn yr Adran Plant, Addysg a Dysgu Gydol Oes a Sgiliau fel rhan o gylch gorchwyl Estyn ar gyfer 2007-2008, am i Estyn yn nodi faint o lwyddiant y mae ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru yn ei gael o ran gwella iechyd disgyblion gyda phwyslais ar weithgarwch corfforol a bwyta'n iach.

Crynodeb o'r prif ganfyddiadau.

Bwyd a diod
Mae clybiau brecwast, yn enwedig mewn ysgolion cynradd, yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles, ymddygiad, prydlondeb a phresenoldeb y disgyblion sy'n cymryd rhan.

Mae ansawdd y profiad ciniawa yn effeithio ar b'un a fydd disgyblion yn dewis cael pryd ysgol. Mae gan lawer o ysgolion geginau lle y mae angen buddsoddi mewn cyfleusterau newydd.

Mae disgyblion sy'n cael gadael yr ysgol yn ystod amser cinio yn aml yn prynu bwyd mewn siopau a chaffis lleol. Yn aml nid yw disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn hawlio eu pryd o fwyd am ddim os caniateir iddynt adael yr ysgol, gan eu bod am fod gyda'u cyfeillion.

Mae pob ysgol wedi gwella'r dewis o fwyd a diodydd iach sydd ar gael dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae bron pob ysgol yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am faterion byw'n iach fel rhan o'r cwricwlwm.

Nid yw llawer o ysgolion yn cydlynu dysgu am fyw'n iach yn effeithiol ym mhob rhan o'r cwricwlwm.

Gweithgarwch corfforol
Mae ysgolion sy'n cymryd rhan mewn mentrau megis Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion a Champau'r Ddraig yn effeithiol o ran annog disgyblion i fod yn fwy gweithgar. Mae'r ysgolion hyn fel arfer yn darparu dwy awr yr wythnos o addysg gorfforol i ddisgyblion, sef y lleiafswm a argymhellir. Fodd bynnag, nid yw chwech ym mhob deg ysgol a arolygwyd yn darparu'r lleiafswm hwnnw.

Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion drefniadau da i annog disgyblion i fod yn weithgar yn ystod amseroedd egwyl ac amseroedd cinio, ond dim ond ychydig ohonynt sy'n llwyddo o berswadio disgyblion i gerdded neu i fynd ar eu beic i'r ysgol.

Mae llawer o ysgolion yn defnyddio cyfleusterau chwaraeon cymunedol yn dda ac yn aml mae hyn yn arwain at ddisgyblion yn defnyddio'r cyfleusterau y tu allan i'r ysgol. Yn gyffredinol mae gan lawer o ysgolion offer da ar gyfer gweithgareddau corfforol, er bod ansawdd ystafelloedd newid a chyfleusterau cawod yn fwy amrywiol.

Ymagweddau strategol ar gyfer byw'n iach

Mae arweinwyr ysgolion yn ymrwymedig i iechyd a lles pobl ifanc. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wrthi'n datblygu eu polisïau a'u hymarferion ar gyfer byw'n iach, yn enwedig mewn perthynas â bwyd a diod. Mae llawer ohonynt yn defnyddio cynlluniau gwobrwyo fel catalydd i'r gwaith hwn. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r cynlluniau Ysgolion Iach a'r rhaglen Eco-Ysgolion.

Mae bron pob ysgol yn dibynnu ar arian ychwanegol i gynnal gwaith byw'n iach, yn enwedig arian a dargedir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Prin yw'r ysgolion sydd wedi cynllunio sut i barhau â'r gwaith hwn pan fydd yr arian yn dod i ben.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn gweithio'n dda gyda rhieni, gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, swyddogion heddlu a sefydliadau lleol a chenedlaethol gwirfoddol i annog ffyrdd iach a gweithgar o fyw. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o'r farn bod aelodau o staff yn eu hysgol yn fodelau rôl da ar gyfer byw'n iach.

Mae rhai agweddau ar doiledau yn anfoddhaol yn hanner yr ysgolion uwchradd ac mewn chwarter o'r ysgolion cynradd a arolygwyd. Pan nad yw disgyblion yn fodlon ar gyflwr toiledau'r ysgol, maent yn fwy tebygol o beidio ag yfed digon o ddŵr yn ystod y diwrnod ysgol er mwyn osgoi eu defnyddio.

Mae cyngor yr ysgol ym mhob ysgol a arolygwyd wedi trafod byw'n iach yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae ystyried barn disgyblion wedi arwain at fân newidiadau i'r bwyd a diod sydd ar gael ac i'r trefniadau yn ystod amseroedd egwyl ac amseroedd cinio.

Mae'r rhan fwyaf o gynghorau ysgol wedi trafod materion sy'n effeithio ar weithgarwch corfforol, yn enwedig diogelwch o ran cerdded i'r ysgol ac oddi yno a'r amrywiaeth o glybiau ar ôl ysgol sydd ar gael. Fodd bynnag, ychydig iawn o ysgolion sydd â systemau effeithiol ar gyfer gwerthuso effaith eu gwaith byw'n iach.

Argymhelliad 1

Dylai ysgolion adolygu eu trefniadau amser cinio er mwyn sicrhau eu bod yn ategu byw'n iach yn unol â'r arfer da a amlygir yn yr adroddiad hwn;

Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru

Yn unol â'r canllawiau ar gyfer "Datblygu Polisi Bwyd a Ffitrwydd Ysgol Gyfan", dylai ysgolion, wrth ystyried ymagwedd ysgol gyfan, sicrhau bod yr amgylchedd bwyta yn darparu profiad bwyta cadarnhaol sy'n sail i werthfawrogi pob disgybl, gan roi sylw manwl i ffactorau allweddol megis hyd yr amser cinio a'r ffordd y rheolir ciwiau. Dosbarthwyd y canllawiau "Datblygu Polisi Bwyd a Ffitrwydd Ysgol Gyfan" i bob ysgol ym mis Medi 2007.

Argymhelliad 2
Dylai ysgolion gynllunio a phennu targedau i gynyddu nifer y disgyblion sy'n manteisio ar brydau ysgol am ddim;

Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru
Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn comisiynu adolygiad llenyddiaeth o'r gwaith a wnaed ar nifer y disgyblion sy'n manteisio ar eu hawl i gael prydau ysgol am ddim; ac wedyn, byddwn yn ystyried yr angen i gomisiynu darn penodol o waith ymchwil wedi'i anelu at nodi'r rhesymau sy'n effeithio ar nifer y disgyblion sy'n manteisio ar brydau ysgol am ddim. Bydd hyn yn helpu i lywio'r broses o ddatblygu strategaethau priodol i gynyddu nifer y disgyblion sy'n manteisio ar eu hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mae Cydlynydd Blas am Oes yn datblygu strategaeth marchnata a chyfathrebu ac yn ei rhoi ar waith i helpu i fynd i'r afael â materion megis cynyddu nifer y disgyblion sy'n manteisio ar eu hawl i gael prydau ysgol am ddim.

O fis Mawrth 2008, gwnaethom gyflwyno system ryngrwyd i Awdurdodau Lleol er mwyn symleiddio'r broses o wirio a yw disgyblion yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim, bydd y system yn darparu system wirio genedlaethol a fydd yn lleihau biwrocratiaeth i ysgolion, rhieni ac Awdurdodau Lleol; annog mwy o ddisgyblion i fanteisio ar eu hawl i gael prydau ysgol am ddim drwy gael gwared ar y stigma ymddangosiadol sy'n gysylltiedig â'r broses gwneud cais; a lleihau'r posibilrwydd o dwyll a gwallau.

Argymhelliad 3
Dylai ysgolion gynllunio i gyrraedd y safonau maetholion, bwyd a diod newydd yng Nghynllun Gweithredu Blas am Oes;

Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru
Bydd prosiect ymchwil weithredu dwy flynedd yn cynnwys pedwar awdurdod lleol (Ceredigion, Merthyr Tudful, Tor-faen a Wrecsam) ar waith o fis Medi 2008 i ddatblygu a phrofi'r canllawiau ar gyfer gweithredu'r safonau bwyd a maethol a gynigir yng Nghynllun Gweithredu Blas am Oes i lywio'r broses o weithredu'r safonau ar raddfa ehangach ledled Cymru.

Mae arian ar gael i bob awdurdod lleol, i gynorthwyo ysgolion nad ydynt yn cymryd rhan yn y prosiect ymchwil weithredu i symud ymlaen i'r safonau newydd a gynigir yng Nghynllun Gweithredu Blas am Oes.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, gydag arian grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, wedi caffael meddalwedd dadansoddi maeth, sy'n unigryw i Gymru. Bydd hyn yn cynorthwyo arlwywyr i gynllunio bwydlenni gan ddefnyddio eu ryseitiau eu hunain ac i rannu ryseitiau â chydweithwyr arlwyo ledled Cymru. Caiff y meddalwedd hwn ei reoli gan Gydlynydd Blas am Oes a bydd ar gael i bob darparwr arlwyo nid dim ond i'r rhai sy'n cymryd rhan yn y prosiect.

Argymhelliad 4

Dylai ysgolion wella'r broses o gydlynu gwaith byw'n iach ym mhob rhan o'r cwricwlwm, rhoi mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu sut i baratoi bwyd a defnyddio dull cyson o addysgu'r hyn sy'n gwneud deiet cytbwys;

Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru
Fel rhan o'r Gorchymyn Dylunio a Thechnoleg diwygiedig yn y cwricwlwm ysgol newydd sydd i'w weithredu o fis Medi 2008, bydd bwyd yn ddeunydd gorfodol yn y rhaglenni astudio ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3.

Caiff disgyblion gyfleoedd i ymarfer amrywiaeth eang o dasgau paratoi a choginio bwyd, yn ddiogel ac yn hylan, ac ystyried negeseuon presennol am fwyta'n iach ac anghenion maethol. Anfonwyd y wybodaeth hon i ysgolion yng Nghymru ym mis Ionawr 2008.

Mae ysgolion yn gyfrifol am gynllunio a chyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys i ddiwallu anghenion penodol pob dysgwr.

Mae canllawiau yn cael eu paratoi ar 'Bwyd a Ffitrwydd' er mwyn helpu ysgolion i gynllunio a darparu addysg effeithiol ar yr agwedd bwysig hon ar iechyd a lles. Caiff y rhain eu hanfon i bob ysgol ochr yn ochr â'r llyfryn astudiaethau achos "Mewn Persbectif".

Mae Bws Coginio Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymweld ag ysgolion cynradd mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf i roi sesiynau coginio ymarferol i ddisgyblion. Darperir sesiwn hyfforddi athrawon hefyd, a darperir offer coginio er mwyn cynorthwyo athrawon i roi sesiynau coginio ymarferol ar waith yn dilyn ymweliad y Bws Coginio.

Argymhelliad 5
Dylai ysgolion **roi'r** lefel ofynnol o addysg gorfforol a argymhellir i ddisgyblion a chynnig amrywiaeth ehangach o weithgareddau corfforol i ddisgyblion;

Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru
Diwygiwyd y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer addysg gorfforol i ganiatáu mwy o hyblygrwydd o ran pa weithgareddau y gellir eu cynnig. Y gobaith yw y bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl sicrhau bod gweithgareddau yn cyd-fynd yn agosach â diddordebau disgyblion a thrwy hynny sicrhau bod mwy ohonynt yn cymryd rhan.

Mae'r Fenter Addysg Gorfforol a Chwaraeon Mewn Ysgolion hefyd yn codi safonau ac yn cynyddu cyfleoedd i wneud Addysg Gorfforol yn enwedig mewn ysgolion cynradd lle y caiff ei haddysgu gan bobl nad ydynt yn arbenigwyr; mae Cyngor Chwaraeon Cymru bellach yn arwain y gwaith o roi'r fenter Addysg Gorfforol a Chwaraeon Mewn Ysgolion ar waith gyda chymorth Llywodraeth Cynulliad Cymru. Gan weithio gydag AALlau, prif elfen y gwaith hwn yw sefydlu Partneriaethau Addysg Gorfforol a Chwaraeon Mewn Ysgolion - sy'n dod â chlystyrau o ysgolion at ei gilydd i wneud y defnydd gorau o gyfleusterau ac arbenigedd gyda tharged o ddwy awr o amser cwricwlwm ar gyfer Addysg Gorfforol bob wythnos.

Y targed yw y bydd pob ysgol yn cymryd rhan mewn Partneriaethau Addysg

Gorfforol a Chwaraeon Mewn Ysgolion erbyn 2010. Datblygwyd canllawiau ymarferol (hyfforddiant ac adnoddau) i gefnogi'r agweddau ar Addysg Gorfforol sy'n dechnegol anos gan gynnwys Gymnasteg a Dawns. Mae canllawiau ar ymarfer corff sy'n gysylltiedig ag iechyd wedi'u datblygu hefyd; mae'r rhain yn cael eu diwygio i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd o fis Medi 2008. Mae prosiectau arbenigol yn darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu gwell i ymarferwyr (darparwyd dros 15,000 o gyfleoedd datblygu ym mis Ionawr 2008). Ymhlith y mentrau creadigol sy'n deillio o'r fenter Addysg Gorfforol a Chwaraeon Mewn Ysgolion y mae'r pecyn maes chwarae *In the Zone* sy'n annog plant i gymryd rhan mewn chwaraeon mwy gweithgar ac adeiladol yn ystod amseroedd egwyl ac sy'n gwneud cyfraniad sylweddol at sicrhau'r lefelau o weithgareddau corfforol a argymhellir i blant.

Mae Campau'r Ddraig yn parhau i ddarparu amrywiaeth o glybiau cwricwlaidd ychwanegol mewn saith math o chwaraeon yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd ac o ganlyniad mae'n cynnig cysylltiad allweddol â chlybiau cymunedol i ddisgyblion.

Mewn ysgolion uwchradd ategir Addysg Gorfforol gwricwlaidd gan y rhaglen 5 x 60 allgwricwlaidd sy'n targedu'r disgyblion hynny sydd wedi ymddieithrio oddi wrth weithgarwch corfforol a chwaraeon yn benodol drwy gynnig amrywiaeth eang o weithgareddau a nodir gan y disgyblion eu hunain.

Mae canran gynyddol o ysgolion yn cynnig dwy awr o Addysg Gorfforol gwricwlaidd yr wythnos, sef y lleiafswm a argymhellir, ond mae sawl ffactor sy'n rhwystro ysgolion rhag cyflawni'r targed hwn o hyd gan gynnwys materion yn ymwneud â chynllunio'r cwricwlwm, staffio a chyfleusterau.

Fel rhan o ymrwymiadau Cymru'n Un cynhelir rhaglen beilot o ysgolion dydd Sadwrn a haf ym maes chwaraeon, celf a cherddoriaeth yn ystod 2008/09 gyda'r nod o gynyddu'r cyfleoedd drwy ysgolion a'r gymuned i bobl ifanc fod yn gorfforol weithgar drwy gydol yr wythnos a chyfnodau gwyliau. Dylid annog ysgolion i gymryd rhan yn y fenter hon fel rhan o'u darpariaeth gymunedol benodol a'u dull cyfannol o ddatblygu pobl ifanc.

Argymhelliad 6
Dylai ysgolion sicrhau bod toiledau a chyfleusterau newid yn cyrraedd safonau gofynnol priodol.

Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru
Mae Rheoliadau Addysg (Adeiladau Ysgol) 1999 yn gosod y safonau gofynnol o ran adeiladau ysgol newydd a phresennol, mae'r rhain wrthi'n cael eu hadolygu gan yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd gyda mewnbwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Dosbarthwyd y daflen *'Gwyliwch y Germau'* i feithrinfeydd, cylchoedd chwarae a lleoliadau gofal plant eraill ledled Cymru yn ystod Mehefin 2006, a rhoddodd gyngor syml, ymarferol i gynorthwyo staff i ddeall mater rheoli heintiau a sut i'w hatal rhag ymledu mewn lleoliadau lle y mae pobl ifanc mewn cysylltiad â phlant a staff eraill.

Dosbarthwyd ail lyfryn o'r enw '*Dysgwch Wers i Germau'* i bob ysgol gynradd ac uwchradd yng Nghymru ym mis Hydref 2006 ac mae'n rhoi cyngor ymarferol syml i alluogi staff mewn ysgolion cynradd ac uwchradd i ddeall heintiau yn well, yr hyn y gallant ei wneud i leihau'r risg o heintiau yn ogystal â'r hyn y dylid ei wneud i rwystro heintiau rhag ymledu.

Mae canllawiau ar gyflawni Cam 6 o Gynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru yn nodi y dylai ysgolion fod wedi ymdrin ag ystod o bynciau iechyd gan gynnwys hylendid, lle y mae'n ofynnol cydymffurfio â'r cyngor yn y llyfryn *'Dysgwch Wers i Germau'* ac ystyried safonau toiledau'r ysgol.

Argymhelliad 7
Dylai ysgolion werthuso pa mor effeithiol yw camau a gymerwyd ganddynt i wella iechyd disgyblion

Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru
Mae'n ofynnol i ysgolion sy'n cymryd rhan mewn cynlluniau ysgolion iach lleol fel rhan o Gynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru gynllunio eu camau gweithredu i wella iechyd, ac i osod targedau a ddefnyddir i'w hasesu o fewn y terfyn amser y cytunwyd arno.

Gallant hefyd edrych ar ganlyniadau e.e. nifer y disgyblion sy'n prynu ffrwythau; achosion o fwlio a gofnodwyd. Fodd bynnag, ystyrir nad yw'n realistig i ysgol unigol ystyried gwelliannau mewn iechyd fel y cyfryw. Mae'n bwysig nodi y dylai polisïau sy'n gysylltiedig ag iechyd a gyflwynir mewn ysgolion gael eu llywio gan waith ymchwil a gwerthuso cenedlaethol cadarn. Mae enghreifftiau diweddar o hyn yn cynnwys gwerthuso'r Fenter Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd a Phrosiect Ymchwil Weithredu arfaethedig Blas am Oes.

Caiff canllawiau ar asesu ysgolion eu cynhyrchu yng Nghyfnod 6 o Gynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru (a gyflawnir dim ond ar ôl cymryd rhan am o leiaf naw mlynedd). Bydd y canllawiau hyn yn darparu dangosyddion proses a chanlyniadau clir i'w hasesu.

Argymhelliad 8
Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gydag ysgolion ac awdurdodau lleol i sicrhau bod pob ysgol yn cyrraedd y safonau newydd ar gyfer maetholion, bwyd a diod yng Nghynllun Gweithredu Blas am Oes cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl a phennu dyddiad targed ar gyfer hyn;

Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru
Gan ystyried yr holl wybodaeth a gasglwyd yn ystod y broses ymgynghori ynghylch Blas am Oes gan gynnwys gwersi a ddysgwyd o rannau eraill o'r DU a thrafodaethau manwl gyda Chymdeithas Arlwywyr Awdurdodau Lleol rydym wedi penderfynu peidio â chyflwyno'r safonau newydd ar gyfer maetholion, bwyd a diod drwy ddeddfwriaeth ar hyn o bryd.

Bydd prosiect ymchwil weithredu dwy flynedd yn cynnwys pedwar awdurdod lleol (Ceredigion, Merthyr Tudful, Tor-faen a Wrecsam) ar waith o fis Medi

2008 i ddatblygu a phrofi'r canllawiau ar gyfer gweithredu'r safonau bwyd a maethol a gynigir yn y Cynllun Gweithredu i lywio'r broses o weithredu'r safonau ar raddfa ehangach ledled Cymru. Caiff canllawiau drafft i ategu'r gwaith o weithredu'r safonau bwyd a maeth a gynigir yn y cynllun Blas am Oes yn ymarferol eu datblygu a'u profi drwy'r Prosiect Ymchwil Weithredu dwy flynedd a'u diwygio wrth i wersi gael eu dysgu.

Bydd arian ar gael hefyd drwy gynllun grant penodol i gynorthwyo ysgolion ym mhob awdurdod nad ydynt yn cymryd rhan yn y prosiect ymchwil weithredu ac sydd am symud ymlaen i'r safonau newydd a gynigir yn y Cynllun Gweithredu. Cyfanswm yr arian sydd ar gael ar gyfer 2008-09 a 2009-10 yw £6.6m

Argymhelliad 9
Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gydag ysgolion ac awdurdodau lleol i ariannu gwelliannau i gyfleusterau arlwyo a chiniawa a chyfleusterau ar gyfer addysgu disgyblion sut i baratoi a choginio bwyd.

Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru
Mae pob awdurdod yng Nghymru yn cael cymorth sylweddol gan y Cynulliad i wneud gwelliannau i adeiladau a chyfleusterau cysylltiedig mewn ysgolion. Mae nifer o ffynonellau arian ar gael i awdurdodau lleol i ariannu gwaith cyfalaf mawr - eu harian cyfalaf cyffredinol eu hunain - a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar sail heb ei neilltuo, mynediad i fenthyca darbodus a derbyniadau cyfalaf.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn rhoi Grantiau Gwella Adeiladau Ysgol i Awdurdodau Addysg Lleol sydd wedi'u neilltuo a dim ond ar gyfer gwelliannau i adeiladau ysgol y gellir eu defnyddio. Caiff pob awdurdod ddyraniad grant a bydd yn penderfynu pa ysgolion sy'n mynd i fanteisio arno yng ngoleuni blaenoriaethau lleol. Ar hyn o bryd mae arian Grant Gwella Adeiladau Ysgol y Cynulliad yn £90 miliwn y flwyddyn, a disgwylir iddo barhau ar y lefel hon tan ddiwedd y degawd i ategu ein hymrwymiad y bydd pob ysgol yng Nghymru mewn cyflwr ffisegol da ac yn cael ei chynnal yn briodol.

Argymhelliad 10.
Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gydag ysgolion ac awdurdodau lleol i gyflwyno safonau gofynnol ar gyfer toiledau ysgolion a chyfleusterau newid.

Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru
Mae Rheoliadau Addysg (Adeiladau Ysgol) 1999 ar hyn o bryd yn pennu'r safonau gofynnol mewn perthynas ag adeiladau ysgol newydd a phresennol, mae'r rhain wrthi'n cael eu hadolygu gan yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd gyda mewnbwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Yn dilyn yr achosion E-coli, anfonwyd taflen hylendid sylfaenol '*Gwyliwch y Germau'* i bwysleisio pwysigrwydd atal heintiau ac ymdrin â hwy yn effeithlon ac yn effeithiol i blant a staff addysgu i feithrinfeydd, cylchoedd chwarae a lleoliadau gofal plant eraill ledled Cymru yn ystod mis Mehefin 2006. Rhoddodd y daflen gyngor ymarferol syml i helpu staff i ddeall sut i reoli

heintiau a sut i'w hatal rhag ymledu mewn lleoliadau lle y bydd plant bach yn dod i gysylltiad â phlant eraill a staff.

Yn dilyn llwyddiant y llyfryn *'Gwyliwch y Germau'* lansiwyd ail lyfryn o'r enw '*Dysgwch Wers i Germau'* ym mis Hydref 2006 ac mae'n rhoi cyngor ymarferol syml i alluogi staff mewn ysgolion cynradd ac uwchradd i ddeall heintiau yn well, yr hyn y gallant ei wneud i leihau'r risg o heintiau yn ogystal â'r hyn y dylid ei wneud i rwystro heintiau rhag ymledu Mae'r llyfryn yn tanlinellu'r angen i sicrhau bod ysgolion a lleoliadau eraill yn lân cyn i'r plant gyrraedd, a phwysigrwydd sefydlu trefn lanhau ddyddiol, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, ardaloedd chwarae, toiledau, ceginau, teganau a chyfarpar arall. Mae hefyd yn rhoi cyngor clir ar addysgu plant am yr hyn y gallant ei wneud i leihau heintiau.

Mae canllawiau ar gyflawni Cam 6 o Gynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru yn nodi y dylai ysgolion fod wedi ymdrin ag ystod o bynciau iechyd megis hylendid, lle y mae'n ofynnol cydymffurfio â'r cyngor yn y llyfryn '*Dysgwch Wers i Germau'* ac ystyried safonau toiledau'r ysgol.

Argymhelliad 11.
Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gydag ysgolion ac awdurdodau lleol i roi canllawiau i ysgolion ar sut i werthuso pa mor effeithiol yw eu camau i wella iechyd disgyblion

Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru
Mae angen i ysgolion sy'n cymryd rhan mewn cynlluniau ysgolion iach lleol fel rhan o Gynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru gynllunio eu camau gweithredu i wella iechyd, a phennu targedau a ddefnyddir i'w hasesu. Mae llawer o'r targedau yn dargedau proses yn ôl dyddiad.

Gallant hefyd edrych ar ganlyniadau e.e. nifer y disgyblion sy'n prynu ffrwythau; achosion o fwlio a gofnodwyd. Fodd bynnag, ystyrir nad yw'n realistig i ysgol unigol ystyried gwelliannau mewn iechyd fel y cyfryw.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn monitro newidiadau mewn ymddygiadau iechyd gan ddefnyddio'r arolwg Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol a gynhelir bob pedair blynedd gyda disgyblion ym Mlynyddoedd 7, 9 ac 11; y mae gennym ddata o 1986 ar ei gyfer. Mae gwybodaeth am iechyd plant a phobl ifanc yn cael ei chasglu bellach drwy Arolwg Iechyd Cymru.

Bydd yr arolwg presennol o Gynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru yn dangos effeithiolrwydd gwaith a wnaed ledled Cymru hyd yma. Mae drafft cynnar o'r Adolygiad wedi dangos y dylem roi mwy o ganllawiau ar ganlyniadau. Caiff hyn ei ymgorffori yn sesiwn hyfforddi nesaf Cydlynydd Ysgolion Iach Cymru gyfan ym mis Hydref 2008.

Rydym wrthi'n drafftio canllawiau ar asesu ysgolion yng Nghyfnod 6 o Gynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru (a gyflawnir dim ond ar ôl cymryd rhan am o leiaf naw mlynedd). Bydd y canllawiau hyn yn rhoi dangosyddion proses a chanlyniadau clir i'w hasesu.

Mae'n bwysig nodi y dylai polisïau sy'n gysylltiedig ag iechyd a gyflwynir mewn ysgolion gael eu llywio gan waith ymchwil a gwerthuso cenedlaethol cadarn. Mae enghreifftiau diweddar o hyn yn cynnwys gwerthuso'r Fenter Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd a'r prosiect ymchwil weithredu arfaethedig a gynhwysir yn astudiaethau achos Blas am Oes.

Manylion Cyhoeddi.

Disgwylir i'r adroddiad "*Bwyd a Ffitrwydd mewn ysgolion - Adroddiad ar ba mor dda y mae ysgolion yng Nghymru yn cefnogi plant a phobl ifanc i fod yn iach ac yn weithgar"*, gael ei gyhoeddi ar 6 Mai 2008 a bydd ar gael ar wefan Estyn yn www.estyn.gov.uk